

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne
Llanafan ar Nos Lun 2 Gorffennaf, 2018 am 7.30 y.h.**

Presennol:

Cyng.T. Alwyn G. Davies (Cadeirydd)

Cyng. P. Davies

Cyng. J. George

Cyng. C. Lloyd-Morgan

Cyng. H.M. Evans

Cyng. E. Lewis

Cyng. M. Davies

Cyng. Sh. Edwards

Cyng. L.L. Owen

Ymddiheuriadau

Cyng. A. Evans, Cyng. P. Bonner

Materion Personol

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 21ain Mai, 2018 fel cofnod cywir.

Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd Morgan ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Asesiad Risg ac Asedau

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Dim diweddariad a chytunwyd i gadw'r eitem o fewn cof y Cyngor Bro gan y cysylltwyd gyda'r Bwrdd Dwr yn gwneud cais am system garthffosiaeth newydd drwy'r pentref.

Sefyllfa Band Eang o fewn yr Ardal

Adroddwyd fod y Gwasanaeth Band Eang yn parhau i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd a chytunwyd i gysylltu ymhellach gyda'r Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad i ymholi am ddiweddariad yn eu hymgyrch i geisio datrys y problemau o fewn Sir Ceredigion ac yn lleol o fewn ardal Cyngor Bro Trawsgoed.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir

Dŵr ger y Gors ar y ffordd C1052

Y sefyllfa'n parhau, gan gadw'r eitem ar yr agenda hyd fydd y Cyngor Sir yn gweithredu.

Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan

Trefniadau mewn llaw i dderbyn y darn tir yn eiddo'r Cyngor Cymuned.

Draeniau angen sylw o fewn yr ardal.

Sefyllfa isod yn parhau:

Drain angen gwaghau ger Minafon, Llanafan, hefyd adroddir fod yna broblem o ddŵr yn cronni rhwng Minffordd, Y Gors ac Abermagwr.

Rhai o'r tyllau mawr yn y ffordd ar Riw Hari, Llanfihangel-y-Creuddyn hefyd tyllau dipyn eu maint yn y ffordd wrth ymyl Blaenmagwr ac wrth ymyl Brynmagwr. Twll newydd yn y ffordd wedi ymddangos rhwng Cynnon Villa a Glanyrafon.

Mae'r drain dwr wedi cwmpo ymhellach i mewn yn agos i fynedfa Fferm Llwynbrain ac angen sylw brys.

Llinellau Ffyrdd

Llinellau Ffyrdd yn parhau angen eu hail-baentio ym Mhentrefi'r ardal.

Cymdeithas Maes Chwarae Maesyfelin

Nid oedd diweddariad gan y Clerc i'w adrodd ond ei bod yn disgwyl i dderbyn y brydles i'w arwyddo. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion i ymholi pryd y disgwylir derbyn y brydles.

Sefyllfa isod yn parhau ac angen cysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw pellach.

Wrth ymuno gyda'r B4340 ar y gyffordd gyferbyn a Thafarn y Gors mae gwelededd yn anodd gan fod angen torri'r gwrych ar y chwith.

Gyferbyn â Brynhyfryd yn Cnwch Coch mae'r tarmac wedi dod yn rhydd wrth ochr y ffordd ble mae dŵr glaw yn cronni ac yn rhedeg i'r cae cyfagos gan achosi niwed i'r llwybr.

Wrth Cwmseiri ar y ffordd A4120 mae gwelededd yn anodd wrth droi a dod allan o'r gyffordd gan fod canghennau yn ymestyn allan i'r ffordd ar gornel. Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Gwrych angen Torri ym Mhentref Llanafan, ger fynedfa am Brynafan.

Planhigyn Japanese Knotweed – tynnir sylw'r Cyngor Sir at y broblem unwaith eto.

Twll yn y Ffordd wrth ymyl Dan y Wenallt: Mae'r twll dwfn yn parhau i fod yn beryglus ac angen sylw brys.

Ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant: Adroddwyd bod sefyllfa'r ffordd yn dirywio gyda nifer o dyllau dwfn ar hyd y ffordd sydd angen sylw brys a bod yna dwll dwfn wrth fynedfa'r ffordd wrth ymyl Trisant.

Cyfeiriwyd hefyd at ddraen ger Penbanc ar y ffordd uchod, sydd wedi gorlenwi. Adroddir bod yn broblem hanesyddol a bod o bosibl angen piben mwy o faint yno. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

Dwr yn cronni ar draws y ffordd wrth anelu am Frynafan o Lanafan gan fod y ffosydd wedi gorlenwi.

Y ffordd o Lanafan i Troedrihwfelen heibio'r Capel mae porfa'n tyfu ar ganol y ffordd sy'n mynd i niweidio'r ffordd a hefyd tuag at Pencwmlllydan, Brynafan.

Ffos wedi blocio rhwng Abertrinant a Llanfihangel-y-Creuddyn.

Rhiw Brynafan: Dŵr glaw yn llifo allan o'r Goedwig ym Mhant yr Hirion ac yn cronni ar y ffordd. Gofynnir i'r Cyngor Sir ddod i agor ffos yno er mwyn i'r dwr lifo i ffwrdd.

Llwybr Cyhoeddus Awel y Bryn

Yr angen am reil llaw ar y llwybr cyhoeddus uchod yn parhau.

Bont Llanafan, mae'r llwybr cerdded yn erydu ac angen sylw brys.

Bydd angen gwaith adnewyddu ar y rheiliau pren rhwng Rest a Bont Fach ac mae ochr y ffordd yn erydu mewn mannau rhwng Bontgarreg a Bont Fach.

Mae'r broblem yn parhau yn Cnwch Coch ble nad yw trigolion yn derbyn cyflenwad arall o fagiau gwag yn eu lle pan y gofynnir amdanynt.

Deallwyd nad yw bagiau ail-gylchu a bagiau sbwriel yn cael eu casglu'n rheolaidd ger Celt a Bont Trawsgoed. Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y broblem.

Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir am y materion hyn.

Mae'r ffordd heibio Capel Cynon i ben y rhiw am Lanfihangel-y-Creuddyn angen sylw gyda thyllau mawr ar hyd-ddi gyda'r arwynebedd wedi codi mewn mannau.

Mae'r goleuadau fflachio tu allan i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn dod arno ar amserau gwahanol, angen tynnu sylw'r Cyngor Sir at hyn.

Arwyddion Cyflymder

Mae angen adnewyddu arwyddion adlewyrchiad 30 m.y.a. banc Frondeg i Lanafan a hefyd ar y ffordd o Minffordd i Frynafan.

Adnewyddu Ffens

Ar y B4340 wrth ymyl Pont Hopkins ar y llaw dde o'r fynedfa o Lanafan mae ffens wedi dymchwel sy'n golygu dibyn serth i'r afon pe byddai car neu gerddwyr yn digwydd mynd oddi ar y ffordd. Gofynnir i'r Cyngor Sir ddiogelu'r safle fel mater o frys.

Bin Halen

Parhau i ofyn i'r Cyngor Sir i leoli Bin Halen newydd ar waelod Rhiw Sarnau a hefyd ger Penffordd, Y Gors, Aberystwyth gan fod dŵr sy'n cronni'n rhewi'n galed ac yn berygl i'r cyhoedd.

Coed angen sylw

Cyfeiriwyd at goed o fewn yr ardal sydd angen sylw i'w dymchwel cyn iddynt gwympo gan achosi niwed yn Llanafan, Coeden Dderw wedi trigo ger Minffordd, Llanafan.

Coed o Bentref Llanafan tuag at y B4340

Mae'r coed ar y llaw dde wrth deithio tuag at y B4340 yn ymestyn allan ar draws y ffordd yn parhau'r un peth gyda'r angen i gadw llygad ar y sefyllfa.

Goleuadau Traffig yn y Gors

Yn dilyn tywydd garw diweddar mae darn o'r gwrych wedi golchi ffwrdd ar y ffordd B4340 i'r de o bentref y Gors ac mae goleuadau traffig mewn lle a deallwyd byddid yn dechrau ar y gwaith yn yr Hydref.

Coed Ardal Llanfihangel-y-Creuddyn

Adroddwyd at goed sydd angen eu torri yn ôl o fewn ardal Llanfihangel-y-Creuddyn sy'n gwneud gyrri yn anodd mewn man penodol. Y Clerc i dynnu sylw Cyngor Sir Ceredigion at y sefyllfa gan ofyn iddynt gysylltu gyda pherchnogion y coed.

Materion Cyllidol

Lwfans Aelodau

Trafodwyd gohebiaeth gan Un Llais Cymru yn cyfeirio at Ganllaw i Ymarferwyr ar Lywodraethant ac Atebolrwydd y gall y Cyngor Bro benderfynu ar dalu lwfansau i'r Cyngorwyr ac y dylai fod yn ffactor wrth benderfynu ar gyfanswm y presept. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol na fyddai'r Cyngorwyr yn hawlio lwfans ariannol.

Ciosg Cnwch Coch

Yn y cyfarfod o'r Cyngor Bro ar yr 21ain o Chwefror derbyniwyd cais wrth drigolion Cnwch Coch am nawdd ariannol. Cytunwyd na fedrir cyfrannu hyd y byddai'r trigolion wedi sefydlu pwyllgor cyfansoddiadol. Yn y cyfarfod ar y 2ail o Ebrill cyfeiriwyd at ymateb y trigolion na fyddid yn dilyn lan gyda'r cais am nawdd ariannol gan na fyddid yn sefydlu pwyllgor cyfansoddiadol. Adroddodd y Clerc ei bod bellach wedi derbyn llythyr pellach wrth drigolion Cnwch Coch yn nodi bod pwyllgor sefydliadol bellach wedi sefydlu gan ofyn i'r Cyngor Bro ail-ystyried y cais am nawdd ariannol tuag at y diffibliwr yng Nghwch Coch. Trafodwyd y cais newydd a chytunwyd i gyfrannu £50.00 tuag at redeg y diffibliwr Cnwch Coch.

Cynigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. Ceridwen Lloyd-Morgan.

Cyhoeddiad Charles Arnold

Cyfeiriodd y Clerc at ohebiaeth a dderbyniodd wrth Gwmni Lexis Nexis, drwy Un Llais Cymru yn cynnig gostyngiad o 50% am gyhoeddiad Charles Arnold Baker, y 10fed Cyfrol ar gost o £53.00 a £7.00 cost postio. Cynigiwyd archebu'r llyfr gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

Safle We

Derbyniwyd anfoneb wrth Gwmni Technoleg Taliesin am Wasanaeth hostio tan 1/12/18 £90.00 Tâl ychwanegol am gofrestru domain trawsgoed-council.wales a cyngor-trawsgoed.cymru (£15 y flwyddyn yr un). Cyfanswm o £120.00 Cynigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.

Gohebiaeth

The Cinnamon Trust

Derbyniwyd ohebiaeth wrth sefydliad The Cinnamon Trust sy'n sefydliad sy'n chwilio am bobl yn yr ardal i gynorthwyo cerdded cŵn mewn perchnogaeth oedolion oedrannus neu ag afiechyd meddygol. Rhoddir posteri ar yr hysbysfyrdau.

Unrhyw Fater Arall

Trafodwyd yr angen am dorri gwrychoedd o fewn yr ardal. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw bod y ffyrdd angen torri fel mater o frys.

Cyflwr glan yr afon, ger y coedtir rhwng Abermagwr a Bont Trawsgoed

Tynnwyd sylw'r aelodau'r Cyngor Bro gan un o drigolion lleol bod angen sylw ar rhan o glan yr afon, ger y coedtir rhwng Abermagwr a Pont Trawsgoed. Mae'r glan yr afon yn diriwio ac wedi golchi i ffwrdd tipyn o lan yr afon, gan gynnwys rhai 'gabions' cerrig a osodwyd yno. Cytunwyd i dynnu sylw Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru at y sefyllfa.

Tipio Sbwriel Anghyfreithlon

Cyfeiriwyd at nwyddau sydd wedi cael ei adael yn anghyfreithlon ar y ffordd rhwng Y Gors a Sarnau. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw at y sefyllfa.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Bro ar Nos Lun 3ydd Medi, 2018 am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.